Beibl i Blant
yn cyflwyno

Dyn gafodd ei anfon gan Dduw

Awdur: Edward Hughes

Lluniau gan: Byron Unger; Lazarus

addaswyd gan: E. Frischbutter; Sarah S.

Cyfieithydd: Catrin Roberts

Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

©2014 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo
neu argraffu'r stori hon, ar yr amod
nad ydych yn ei gwerthu.

Un diwrnod, roedd hen offeiriad o'r enw Sachareias yn llosgi arogldarth yn nheml Dduw.

Tu allan, roedd y bobl yn gweddïo.
Yn sydyn, dechreuodd
Sachareias grynu.

Roedd e'n gweld angel!
"Paid bod ofn.



Duw sydd wedi fy anfon i yma", meddai'r angel.




“Bydd dy wraig yn cael mab. Rho’r enw Ioan arno.

Bydd yn cael ei lenwi gyda'r Ysbryd Glân o'r funud caiff ei eni.

Bydd yn troi llawer iawn o bobl at yr Arglwydd eu Duw."

"Dweda rhywbeth, Sachareias." Roedd y bobl y tu allan yn methu deall.

Doedden nhw ddim yn gwybod fod yr angel Gabriel wedi dweud y byddai'n methu siarad nes byddai'r plentyn wedi ei eni.

Pam? Achos fod e heb gredu neges Duw. Roedd e'n meddwl bod ei wraig yn rhy hen i gael babi.

Wedi cyrraedd gartref, ysgrifennodd Sachareias bopeth ddywedodd yr angel wrtho.

Roedd Elisabeth, ei wraig, yn rhyfeddu. Roedden nhw wedi gweddïo llawer am blentyn. Oedd hyn yn mynd i ddigwydd?

Cyn hir sylweddolodd Elisabeth fod babi ar y ffordd. Dyma hi'n moli Duw.

Un diwrnod daeth cyfnither Elisabeth, Mair, i'w gweld. Roedd Mair hefyd yn disgwyl babi.



Pan gyrhaeddodd Mair, neidiodd babi Elisabeth yn ei chroth. Cafodd Elisabeth ei llenwi â'r Ysbryd Glân.



Roedd hi'n gwybod mai'r Arglwydd Iesu Grist oedd babi Mair. Yn llawen iawn, dechreuodd y ddwy foli Duw gyda'i gilydd.

Cafodd babi Elisabeth ei eni yn union fel oedd Duw wedi addo.



"Galwch e'n Sachareias ar ôl ei dad," meddai'r offeiriaid eraill. Cofiodd Sachareias am orchymyn Duw.


"Na! Ioan fydd enw'r babi."
Wrth i Sachareias ysgrifennu'r geiriau hynny lawr, cafodd ei allu i siarad yn ôl. Yna dechreuodd foli Duw.


Wedi i Ioan dyfu'n ddyn, roedd fel Elias, proffwyd mawr Duw.


Roedd yn dweud wrth bobl fod y Meseia yn dod yn fuan i'w bendithio.

Roedd arweinwyr
Iddewig yn casáu
Ioan achos bod e'n
dweud, "Trowch
gefn ar bechod!"

Doedden nhw
ddim am glywed
am eu pechodau.

Roedd rhai yn ei alw'n Ioan Fedyddiwr am fod e'n trochi pobl mewn afon er mwyn iddyn nhw ddangos bod nhw'n sori am bechu.

Un diwrnod daeth Iesu at Ioan
a gofyn iddo ei fedyddio.
"Fi ddylai gael
fy medyddio
gen ti!"
protestiodd
Ioan.

Ond dywedodd Iesu, "Gwna beth dw i'n gofyn." Cafodd Iesu ei fedyddio gan Ioan.

Ar ôl bedyddio Iesu, gwelodd Ioan yr Ysbryd Glân yn dod i lawr fel colomen ac yn disgyn ar Iesu. Arwydd Duw oedd hyn.

Deallodd Ioan mai Iesu oedd mab Duw. Dywedodd Ioan "Iesu ydy Oen Duw - yr un sy'n cymryd pechod y byd i ffwrdd."

Arweiniodd Ioan lawer o bobl at Dduw. Ond cafodd ei daflu i'r carchar gan Herod, y llywodraethwr drwg.

Roedd Ioan wedi dweud wrtho "Rwyt ti'n pechu wrth briodi Herodias, gwraig dy frawd."

Roedd Herod yn gwybod fod hyn yn wir. Roedd e'n gwybod fod Ioan yn was Duw, ac yn ddyn duwiol a da.

Ond doedd e ddim am stopio pechu. A doedd Ioan ddim am stopio dweud y gwir wrtho, hyd yn oed os oedd hynny'n golygu carchar.

Cafodd Herod barti mawr ar ei benblwydd. Dyma ferch Herodias yn perfformio dawns o'i flaen.



Roedd Herod wedi ei blesio. "Fe gei di beth bynnag rwyt ti eisiau, hyd yn oed hanner y deyrnas!" addawodd iddi.

"Am beth wna i ofyn?" meddyliodd y ferch. Roedd ei mam ddrwg, Herodias, yn casáu Ioan.



Dywedodd wrthi am ofyn am rywbeth ofnadwy!


"Dw i am i ti dorri
pen Ioan Fedyddiwr
a'i roi i mi ar blât,"
meddai'r ferch
wrth Herod.


Roedd e'n ddigalon iawn am hyn, ond doedd ganddo mo'r wyneb i'w gwrthod hi.

"Torrwch ben Ioan," gorchmynnodd Herod. Dyma'r milwyr yn ufuddhau.

Yn drist, fe wnaeth ffrindiau Ioan gladdu corff gwas dewr a ffyddlon Duw. Roedd gwaith Ioan dros Dduw wedi dod i ben.

Efallai bod nhw'n gwybod y gallai Iesu roi cysur iddyn nhw yn eu tristwch.

Dyn gafodd ei anfon gan Dduw

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Marc 6; Luc 1, 3

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16